# Canllaw i Fynd i'r Afael â Chaethwasiaeth Fodern yn ein Cadwyni Cyflenwi (2023)

RHONDDA CYNON TAF

**Crynodeb:**

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gwario tua £232 miliwn y flwyddyn gyda sefydliadau yn y sector preifat a'r trydydd sector ar y nwyddau, y gwasanaethau a'r gwaith sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

A ninnau'n sefydliad yn y sector cyhoeddus, mae'r Cyngor yn effro i'n cyfrifoldeb i fynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern a dydyn ni **ddim yn ei oddef** o fewn ei gadwyn gyflenwi. I gefnogi hyn, rydyn ni wedi ymrwymo i God Ymarfer Llywodraeth Cymru (Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi). Nod y Cod yw sicrhau bod gweithwyr yng nghadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus yn cael eu cyflogi'n foesegol ac yn unol â llythyren ac ysbryd deddfau'r DU a deddfau rhyngwladol. Mae’r Cod yn ymdrin â’r materion cyflogaeth canlynol:

- Caethwasiaeth Fodern a cham-drin hawliau dynol
- Cosbrestru
- Hunangyflogaeth ffug
- Defnydd annheg o gynlluniau ymbarél a chontractau dim oriau;
- Talu'r Cyflog Byw

**Pwrpas y ddogfen yma yw rhoi canllaw i gontractwyr a chyflenwyr y Cyngor ar sut i adnabod arwyddion caethwasiaeth fodern a chyfarwyddiadau ar sut i roi gwybod am bryderon.**

**Beth yw Caethwasiaeth Fodern?**

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ac yn mynd yn groes i hawliau dynol sylfaenol. Mae modd iddo ddigwydd ar sawl ffurf, megis caethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur gorfodol a masnachu pobl. Mae pob un o'r enghreifftiau yma'n amddifadu rhyddid unigolion ac yn cam-fanteisio arnyn nhw er budd personol neu fasnachol.

Mae dioddefwyr yn cael eu masnachu ledled y byd am ychydig bach o arian, neu ddim arian o gwbl, ac mae modd iddyn nhw gael eu cludo i mewn i’r DU. Mae modd iddyn nhw gael eu gorfodi i weithio yn y fasnach ryw, caethwasanaeth domestig, llafur gorfodol ac ymgymryd â gweithgaredd troseddol. Mae’r sectorau risg uchel ar gyfer Caethwasiaeth Fodern yn cynnwys amaethyddiaeth, gofal, hamdden, lletygarwch, arlwyo, glanhau, creu dillad, adeiladu, gweithgynhyrchu a’r diwydiant solar.

**Cyfrifoldeb Cyflenwyr i Gyngor RhCT:**

Mae pob sefydliad sy’n gweithredu fel cyflenwyr i Gyngor RhCT yn cael eu hannog i roi prosesau addas a thrylwyr ar waith i liniaru'r risgiau sy’n gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern yn eu sefydliad. Lle bo angen, mae modd i'r Cyngor geisio sicrwydd gan unrhyw ddarpar gyflenwyr i sicrhau bod y prosesau hyn yn eu lle yn rhan

o brosesau tendro neu lunio contract. Bydd y Cyngor yn disgwyl i gyflenwyr fod yn gyfrifol am ofyn am sicrwydd tebyg gan eu cadwyni cyflenwi eu hunain.

Yn rhan o ymrwymiad y Cyngor i God Ymarfer Llywodraeth Cymru, rydyn ni hefyd yn disgwyl i'n cyflenwyr ymrwymo i'r fenter yma er mwyn helpu i sicrhau bod arferion cyflogaeth moesegol yn cael eu rhoi ar waith ym mhob rhan o'n cadwyn gyflenwi.

Yn ogystal â hynny, mae'r Cyngor yn annog ei gyflenwyr i fod yn effro i arwyddion Caethwasiaeth Fodern a chadw llygad amdanyn nhw o fewn eu sefydliadau a'u cadwyni cyflenwi eu hunain.

**Beth yw arwyddion Caethwasiaeth Fodern?**

Byddwch yn effro i arwyddion Caethwasiaeth Fodern. Mae modd i ddioddefwyr fod o unrhyw oedran, rhyw, cenedligrwydd ac ethnigrwydd. Caiff plant (dan 18 oed) eu hystyried yn ddioddefwyr masnach mewn pobl, p'un a ydyn nhw wedi cael eu gorfodi, eu twyllo neu eu talu i ddarparu gwasanaeth. Yr unig feini prawf ydy eu bod nhw wedi'u recriwtio, eu cludo, eu derbyn neu eu cuddio at ddibenion cam-fanteisio.

Mae modd i ddioddefwyr Caethwasiaeth Fodern arddangos un neu nifer o’r arwyddion canlynol:

| Arwyddion Caethwasiaeth Fodern | Enghreifftiau |
|---|---|
| **Ymddangosiad** | **Efallai bydd dioddefwyr yn:**<br>• gwisgo'r un dillad bob dydd.<br>• gwisgo dillad sy'n anaddas ar gyfer y gwaith<br>• dangos anafiadau a allai awgrymu bod rhywun wedi ymosod arnyn nhw, anafiadau sydd ddim wedi'u trin neu anafiadau does dim modd iddyn nhw eu hegluro. |
| **Cyfyngiadau o ran Rhyddid** | **Efallai bydd dioddefwyr yn:**<br>• methu â chyfathrebu'n rhwydd.<br>• profi cyswllt cyfyngedig â theulu neu ffrindiau, ac yn dibynnu ar eu cyflogwr ar gyfer materion o ran gwaith, teithio neu lety.<br>• awgrymu nad oes gyda nhw basbort na dogfennau adnabod.<br>• awgrymu nad oes modd iddyn nhw gael gofal meddygol. |
| **Amodau Gwaith** | **Efallai bydd dioddefwyr yn:**<br>• methu â dewis pryd a ble maen nhw'n gweithio.<br>• gweithio oriau hir dros gyfnodau hir o amser.<br>• gweithio heb gymryd unrhyw amser i ffwrdd.<br>• cael eu gorfodi i weithio o dan amodau penodol.<br>• gweithio heb unrhyw gontract. |

| | |
|---|---|
| **Cyllid** | **Efallai bydd dioddefwyr yn:**<br>• derbyn cyflog isel iawn am eu gwaith, neu ddim yn derbyn cyflog o gwbl.<br>• brin o arian, neu heb gardiau na dogfennau banc.<br>• cael eu disgyblu trwy gosb neu ddirwyon.<br>• gorfod talu am wasanaethau diangen.<br>• cronni dyledion am gludiant a llety. |
| **Ymddygiad** | **Efallai bydd dioddefwyr yn:**<br>• anghyfarwydd â'r iaith leol.<br>• dilyn cyfarwyddiadau gan rywun arall.<br>• gadael i eraill siarad ar eu rhan.<br>• cymysgu ychydig iawn ag eraill yn y gwaith neu gartref, neu ddim yn cymysgu o gwbl.<br>• ddrwgdybus o'r awdurdodau.<br>• dweud celwydd am eu hoedran, neu'n gwrthod ei ddatgan (os ydyn nhw dan 18 oed) |
| **Llety** | **Efallai bydd dioddefwyr yn:**<br>• anghyfarwydd â chyfeiriad eu cartref neu weithle.<br>• byw mewn llety gwael neu anaddas, sydd ddim yn bodloni'r safonau perthnasol.<br>• gorfod byw yn rhywle, neu gyda rhywun, dydyn nhw ddim wedi'i ddewis<br>• byw mewn grwpiau yn y gweithle, a phrin yn gadael y safle. |

**Sut i roi gwybod am bryderon ynghylch caethwasiaeth fodern?**

Os byddwch chi'n sylwi ar unrhyw arwyddion posibl o gaethwasiaeth fodern o fewn eich gweithlu neu gadwyn gyflenwi, peidiwch ag oedi cyn rhoi gwybod amdano - hyd yn oed os ydych chi'n ansicr.

Cysylltwch ag un neu bob un o'r canlynol i rhoi gwybod am eich pryderon:

- Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern **08000 121 700**
- Yr Awdurdod ar Feistri Gangiau a Cham-drin o ran Gwaith Llafur **0800 432 0804**
- Ffurflen Chwythu'r Chwiban y Cyngor: Chwythu'r Chwiban | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)

**Os ydych chi o'r farn bod unigolyn mewn perygl uniongyrchol o niwed arwyddocaol, ffoniwch '999'.**

**Rhagor o Wybodaeth/Cyngor**

I gael rhagor o wybodaeth am Gaethwasiaeth Fodern, mynnwch olwg ar y canlynol:

- Labour exploitation - Modern slavery - Fideo - GLAA (Saesneg)

- Taflen Prevent A5 (gla.gov.uk) (Saesneg)
- Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 (legislation.gov.uk) (Saesneg)
- Hyfforddiant caethwasiaeth fodern: tudalen adnoddau - GOV.UK (www.gov.uk) (Saesneg)
- Forced labour - Exploitation - Advice - Who can help? - GLAA (Saesneg)
- BS 25700:2022 Organizational responses to modern slavery – Guidance | BSI (bsigroup.com) (Saesneg)
- Diogelu Cymru